WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o Ddyluniad Rhaglen Llesiant Gogledd Powys – **Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1529A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Katherine Simmons, Christine Nash, Jeff Brown, Elaine Matthews a Lisa Williams, dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'i phum ffordd gysylltiedig o weithio wrth ddylunio'r cam hwn. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio ymhellach yng nghamau nesaf Rhaglen Llesiant Gogledd Powys.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 7

Mae RhLIGP yn cael ei dylunio i ddiwallu anghenion byrdymor a hirdymor, ac mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio mewn fframweithiau gwerthuso 7

Mae RhLIGP yn dylunio'r cam i ddwyn manteision ataliol 8

Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedi dylunio RhLIGP i gyfrannu at amcanion llesiant penodol ac maent wedi dechrau ystyried sut y gall ddwyn ystod ehangach o fanteision hefyd 9

Mae RhLIGP wedi cael ei sefydlu i hwyluso a hybu cydweithio ac mae perthnasoedd gweithio da; fodd bynnag, mae'n cydnabod bod cynnal hyn yn galw am ymrwymiad a chydweithio parhaus 11

Mae RhLIGP wedi ymrwymo i weithio mewn modd cydgynhyrchiol gyda dinasyddion a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, bydd angen iddi sicrhau ei bod yn dal i gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth yn y gwaith i ddatblygu'r rhaglen 12

Rhan Dau: Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor i gyfleoedd ar gyfer gwella 15

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 19

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a pennu eu hamcanion llesiant; a

b cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Mai 2019 a mis Awst 2019 gyda Chyngor Sir Powys (y Cyngor) a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd).

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o Ddyluniad Rhaglen Llesiant Gogledd Powys, cam y mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn ei gymryd i gyflawni eu Hamcanion Llesiant.

7 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i'n canfyddiadau.

8 Bydd adroddiad atodol yn cael ei ddarparu ar gyfer y Bwrdd Iechyd a hwnnw'n nodi ein dealltwriaeth am ddull corfforaethol cyffredinol y Bwrdd Iechyd o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio.

9 Bydd adolygiad o ddull corfforaethol cyffredinol y Cyngor o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio'n cael ei gynnwys fel rhan o'r gwaith i roi GWELEDIGAETH 2025 ar waith.

# Cefndir

10 Mae Rhaglen Llesiant Gogledd Powys (RhLlGP) yn canolbwyntio ar ddatblygu model integredig newydd yng Ngogledd Powys. Mae'n dod â phartneriaid ynghyd ar draws y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r trydydd sector gyda chysylltedau â gwasanaethau addysg, tai, hamdden, heddlu ac ambiwlans. Fe'i cefnogir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys, a Chydbwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

11 Mae RhLlGP yn gyson â Strategaeth Iechyd a Gofal Powys[1] a'r cynllun cyflawni cysylltiedig[2], Cynllun Llesiant Powys[3] a Chynllun Iechyd a Gofal Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Iachach[4].

12 Yn gynnar yn 2019 dyfarnwyd £2.5 miliwn i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys o Gronfa Drawsnewid Llywodraeth Cymru a fydd yn rhoi cymorth i ddatblygu RhLlGP.

13 Mae cwmpas RhLlGP yn cynnwys:

a. Profi a darparu model integredig newydd ar gyfer poblogaeth wledig.

b. Datblygiad posibl campws llesiant amlasiantaeth yn y Drenewydd.

c. Gweithio gyda chymunedau lleol i gyd-ddylunio model integredig a mynd i'r afael â'r broses ymarferol o'i roi ar waith.

d. Dysgu, gwerthuso a throsglwyddo effeithiol, gan weithredu fel cynllun blaenllaw i gefnogi'r broses ehangach o roi model integredig newydd ar waith ledled Powys.

# Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

14 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddylunio RhLlGP.

15 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

[1] Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys, **Y Strategaeth Iechyd a Gofal ar gyfer Powys: Gweledigaeth hyd at 2027 a'r tu hwnt**, Mawrth 2017

[2] Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys, **Y Strategaeth Iechyd a Gofal ar gyfer Powys: Gwireddu'r Weledigaeth, Cyflawni Ein Dyletswyddau Mewn Perthynas â'r Cynllun Ardal Ar y Cyd**, Mawrth 2018

[3] Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys, **Tuag At 2040 – Cynllun Llesiant Powys**, Gorffennaf 2018

[4] Llywodraeth Cymru, **Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, Mehefin 2018

Arddangosyn 1: y ‘pum ffordd o weithio’

Mae’r tabl isod yn nodi’r ‘pum ffordd o weithio’ a ddiffinnir yn nogfen ‘Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol[5]’ Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
| --- |
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |

16 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: **Mae’r Cyngor a’r Bwrdd Iechyd wedi cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy a’i phum ffordd gysylltiedig o weithio wrth ddylunio’r cam hwn. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wreiddio’r pum ffordd o weithio ymhellach yng nghamau nesaf Rhaglen Llesiant Gogledd Powys.**

[5] **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae RhLlGP yn cael ei dylunio i ddiwallu anghenion byrdymor a hirdymor, ac mae cyfleoedd i wreiddio'r pum ffordd o weithio mewn fframweithiau gwerthuso

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

17 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

18 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[6]

#### Yr hyn a ganfuom

19 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Ceir dull datblygedig, cadarn ac arloesol o gasglu a delweddu data Iechyd a Gofal Cymdeithasol i oleuo RhLlGP. Enghraifft o hyn yw'r banc Gwybodaeth Llesiant, ac Asesiad Poblogaeth Gogledd Powys sydd ar gael yma. Mae'r data hwn yn goleuo penderfyniadau a thrafodaethau gyda rhanddeiliaid.
- Mae RhLlGP wedi tynnu ar ddata perthnasol i gael gwybodaeth ynglŷn â'r galw yn y dyfodol ac mae'n bwriadu defnyddio hwn i bwyso a mesur effaith gwahanol ddulliau lle mae eu Modelau Gofal newydd yn y cwestiwn.[7]
- Mae RhLlGP wedi'i gosod yng nghyd-destun strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddeng mlynedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys a Chynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys sydd â gorwel amser o 22 mlynedd. Mae'r rhaglen yn dangos cysylltiadau â'r Amcan Llesiant yng Nghynllun Gwella Corfforaethol y Cyngor, Gweledigaeth 2025[8] -

[6] Gweler Atodiad 1

[7] Un o agweddau allweddol RhLlGP yw dylunio model integredig Newydd trwy ddull cydgynhyrchu a datblygu cymunedol. Yn y cyd-destun hwn, mae 'Modelau Gofal' yn cyfeirio at y ffordd y darperir iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau penodol.

[8] Cyngor Sir Powys, **Gweledigaeth 2025: Cynllun Gwella Corfforaethol ar gyfer 2018-2023**, Mawrth 2018

"Byddwn yn arwain y ffordd o ran darparu iechyd a gofal integredig, effeithiol mewn amgylchedd gwledig" ac ar draws yr holl amcanion llesiant yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd.[9]

- Mae RhLlGP wedi achub ar y cyfle i fireinio'i threfniadau llywodraethu a bydd gwaith pellach ar y rhain yn helpu i egluro ffocws strategol hirdymor y rhaglen.

20 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer datblygu:

- Wrth ddatblygu'r dulliau gwerthuso ar gyfer RhLlGP bydd cyfle i hyn wreiddio'r pum ffordd o weithio'n llawn.
- Wrth i RhLlGP ddatblygu a mireinio'i manteision dros y misoedd nesaf bydd yn bwysig sicrhau bod y rhain yn dal i gefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor a chynaliadwyedd hirdymor gwasanaeth.
- Bydd angen i'r rhaglen ddisgrifio'n fwy eglur sut y bydd y model gofal hirdymor newydd yn effeithio ar berfformiad cyfredol gwasanaethau.

## Mae RhLlGP yn dylunio'r cam i ddwyn manteision ataliol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

21 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- gwaith i fonitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

22 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[10]

### Yr hyn a ganfuom

23 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r ffocws ar atal yn un o gonglfeini sylfaenol uchelgeisiau RhLlGP.
- Mae'r weledigaeth ataliol wedi'i gwreiddio yn y Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, trwy ffocws ar 'Dechrau'n Dda', 'Byw'n Dda' a 'Heneiddio'n Dda'.

[9] Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, **Cynllun Tymor Canolig Integredig 2019/2020 - 2021/2022**, Mawrth 2019

[10] Gweler Atodiad 1

- Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth drylwyr am y materion y mae'n ceisio'u hatal. Ceir enghreifftiau da lle mae'r Cyngor yn defnyddio data cydgysylltiedig cadarn (megis gyda Thai a Gofal Cymdeithasol) i ddeall angen ac i sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar atal.
- Mae RhLlGP wedi rhoi ystyriaeth ofalus i leoliad y Ganolfan Ranbarthol Wledig i sicrhau bod y modd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol yn cyflawni'r effaith ataliol fwyaf i'r gymuned. Adnabuwyd y Drenewydd fel man problemus yn Asesiad Llesiant Gogledd Powys a'r dadansoddiad o faich clefydau gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mae RhLlGP wedi adnabod y Trydydd Sector fel partner allweddol yn ei dull ataliol.
- Mae RhLlGP yn cydnabod bod rheoli'r broses bontio o fodelau gofal cyfredol i rai newydd yn bwysig ac mae wedi ymrwymo i fuddsoddii mewn dau Reolwr Newid i sicrhau pontio effeithiol i'r modelau gofal newydd.

24 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer datblygu:

- Wrth i RhLlGP ddatblygu ei Model Gofal bydd angen iddi sicrhau bod hwn yn gallu dangos yn glir sut y bydd yn cefnogi'r dull ataliol a dwyn gwelliannau mwy hirdymor ar ganlyniadau a nodwyd.
- Mae cyflawni'r model gofal yn y dyfodol yn ddibynnol yn rhannol ar gapasiti'r Trydydd Sector. Er bod RhLlGP wedi dechrau mapio'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, mae angen gwaith pellach i asesu'r effaith.

## Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedi dylunio RhLlGP i gyfrannu at amcanion llesiant penodol ac maent wedi dechrau ystyried sut y gall ddwyn ystod ehangach o fanteision hefyd

### Yr hyn y chwilion ni amdano

25 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

26 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[11]

[11] Gweler Atodiad 1

## Yr hyn a ganfuom

27 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Ar lefel strategol mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i mapio yn erbyn y Nodau Llesiant Cenedlaethol.
- Y dechreuad ar gyfer RhLlGP yw Strategaeth Iechyd a Gofal ar y Cyd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys 2017-2027 sydd hefyd yn cefnogi cam 11 a 12 yng nghynllun llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Cynllun Gwella Corfforaethol Gweledigaeth 2025 y Cyngor a Chynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd.
- Mae agweddau ar RhLlGP yn rhan allweddol o Raglen Drawsnewid y Cyngor.
- Mae RhLlGP wedi ystyried manteision ehangach y rhaglen i iechyd trwy amcanu at sicrhau darbodion maint mewn cyd-destun gwledig trwy ddwyn nifer o wasanaethau ynghyd.
- Mae RhLlGP wedi cynnal trafodaethau cychwynnol ynglŷn â'r manteision ehangach at draws y nodau cenedlaethol a bydd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid fel rhan o ddatblygu'r achos busnes. Mae meysydd sy'n cael sylw'n cynnwys sut y mae'r rhaglen yn cysylltu â gwaith ehangach i adfywio'r dref a lleihau milltiroedd i bobl sy'n teithio sy'n cynnwys yr effaith ariannol i unigolion yn ogystal ag allyriadau carbon

28 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer datblygu:

- Mae fframwaith canlyniadau cyfredol RhLlGP yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cyfle i sicrhau bod manteision/canlyniadau lluosog ehangach yn cael eu mesur ar draws sbectrwm ehangach y nodau cenedlaethol (megis addysg, yr amgylchedd a'r economi) lle mae dangosyddion yn bodoli sy'n ystyrlon ar lefel ardal fach. Dylai hyn ystyried yn benodol y datblygiad cyfalaf yn y Drenewydd.
- Wrth i dirwedd strategol y Cyngor esblygu, dylai achub ar y cyfle i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu RhLlGP, er enghraifft y Strategaeth Dai sydd i fod i gael ei diweddaru yn 2020.

## Mae RhLlGP wedi cael ei sefydlu i hwyluso a hybu cydweithio ac mae perthnasoedd gweithio da; fodd bynnag, mae'n cydnabod bod cynnal hyn yn galw am ymrwymiad a chydweithio parhaus

### Yr hyn y chwilion ni amdano

29 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor/Bwrdd Iechyd:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

30 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[12]

### Yr hyn a ganfuom

31 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r fframweithiau llywodraethu mewnol ar gyfer RhLlGP wedi'u dylunio fel eu bod yn cefnogi cydweithio rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, a phartneriaid allweddol eraill.
- Mae'r rhaglen hefyd wedi defnyddio mecanweithiau llywodraethu ehangach ar gyfer ymgysylltu â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys.
- Mae RhLlGP wedi ei gwneud yn bosibl datblygu perthynas ragweithiol ac aeddfed rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae penodi Arweinydd Rhaglen ar y cyd yn arwydd o'r ymrwymiad i gydweithio.
- Bu cydweithio cynnar gyda darparwyr acíwt a'u rhaglenni newid o gymorth i lywio datblygiad cynnar RhLlGP.

[12] Gweler Atodiad 1

- Roedd tîm RhLlGP yn bresennol yn nigwyddiadau ymgynghori Future Fit[13] a Hywel Dda y llynedd i adnabod cyfleoedd posibl i gydweithio ar draws y rhanbarth a chyda siroedd ar y ffin megis Swydd Amwythig.
- Mae Grŵp Ymgynghorol Clinigol Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru wedi cael ei ddefnyddio fel rhan o'r rhaglen gan alluogi trafodaethau clinigol a gwaith mewn partneriaeth â ffocws ar ogledd Powys ar draws canolbarth Cymru. Dan y trefniadau hyn mae gweithdai wedi cael eu cynnal gyda meddygon teulu a Meddygon Ymgynghorol sy'n gweithio yn Ymddiriedolaeth y GIG Ysbyty Amwythig a Telford (SaTH), Ysbyty Bronglais, Aberystwyth a Phowys i fwrw golwg ar gyfleoedd i estyn i mewn i Bowys a chydweithio'n fwy.
- Mae RhLlGP wrthi ar yn o bryd yn gweithio i ddatblygu ystod o sefydliadau i ddarparu gwasanaethau 'un stop'.

32 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer datblygu:

- Mae cyfleoedd i ddatblygu mentrau cydweithio gyda'r holl bartneriaid strategol ymhellach, gan gynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu, mor gynnar â phosibl yn y broses ddylunio.
- Gall agweddau ar wahân ar y rhaglen fod ag amserlenni a risgiau penodol. Mae rheoli'r risgiau hyn yn allweddol i sicrhau bod y weledigaeth gydweithredol yn cael ei gwireddu, megis y terfynau amser ar gyfer cyllid cyfalaf ym maes addysg.

## Mae RhLlGP wedi ymrwymo i weithio mewn modd cydgynhyrchiol gyda dinasyddion a rhanddeiliaid. Fodd bynnag, bydd angen iddi sicrhau ei bod yn dal i gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth yn y gwaith i ddatblygu'r rhaglen

### Yr hyn y chwilion ni amdano

33 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;

[13] Mae Rhaglen Future Fit y GIG yn adolygu dyfodol gwasanaethau iechyd yn Swydd Amwythig a'r gwasanaethau ysbyty a ddarperir gan Ysbyty Brenhinol Amwythig, Amwythig ac Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, Telford. Mae'r Bwrdd Iechyd yn un o bum sefydliad sy'n noddwr-aelod gan bod gwasanaethau ysbyty'n cael eu darparu ar gyfer pobl ledled canolbarth Cymru.

- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

34 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[14]

## Yr hyn a ganfuom

35 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae RhLlGP wedi dweud bod cydgynhyrchu'n ganolog i'w dull dylunio ac wedi sefydlu ffrwd waith Ymgysylltu a Chyfathrebu i helpu i reoli hyn.
- Mae gan RhLlGP gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu, sy'n mapio'r camau pan fyddant yn ymgysylltu a rhai rhanddeiliaid allweddol.
- Mae'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedi cyd-ddatblygu Adduned Plant yn ddiweddar i sicrhau bod llais plant yn gryfach mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu dull arloesol o ddelweddu data Iechyd a Gofal y mae'n bwriadu ei ddefnyddio i helpu i ymgysylltu/cyfathrebu gyda rhanddeiliaid a dinasyddion ynghylch RhLlGP.
- Gan weithio gyda Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys, mae RhLlGP wedi cydgynhyrchu proses ymgysylltu â dinasyddion i roi cymorth i ymgysylltu â phobl ifanc.
- Bu ymgysylltu i roi cymorth i gydgynhyrchu trwy Grŵp Ymgynghorol Clinigol Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Canolbarth Cymru. Mae gweithdai gyda Meddygon Ymgynghorol a meddygon teulu'n cefnogi gwaith a thrafodaethau trawsffiniol sy'n canolbwyntio ar y model gofal.

36 Canfuom y cyfleoedd canlynol ar gyfer datblygu:

- Un o risgiau sylweddol RhLlGP yw 'Methu â tharo cydbwysedd rhwng disgwyliadau dinasyddion ynglŷn â'r rhaglen a rhoi anogaeth i feddwl heb orwelion'.[15] Bydd yn bwysig bod yn fwy eglur ynglŷn â sut y bydd y risg hon yn cael ei rheoli/lliniaru.
- Mae RhLlGP wedi cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â grwpiau anhraddodiadol ac y bydd angen i'r mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â'r

[14] Gweler Atodiad 1

[15] Rhaglen Llesiant Gogledd Powys, Cofrestr Rheoli Risgiau a Materion – Ffrwd Waith Ymgysylltu a Chyfathrebu – diweddariad Gorffennaf 2019

grwpiau hyn gael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth.

- Mae angen i RhLlGP fod yn glir a chyson wrth gyfleu i randdeiliaid beth yw'r gwahaniaeth rhwng y prosiect ar gyfer safle a rennir yn y Drenewydd ac agweddau ehangach ar RhLlGP.
- Mae angen i'r meini prawf o fewn Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu RhLlGP ddisgrifio'n fwy eglur sut y byddant yn ymgysylltu drachefn â dinasyddion ynghylch pa mor dda y mae'r gymuned yn teimlo bod y rhaglen wedi gwrando arnynt.

# Adroddiad manwl

## Rhan Dau: Ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor i gyfleoedd ar gyfer gwella

Fe wnaeth Rhaglen Llesiant Gogledd Powys (RhLlGP) ystyried ein canfyddiadau yn y gweithdy adborth ac ymateb ym mis Medi 2019 ac fe gytunodd ar nifer o gyfleoedd ar gyfer gwella i'r Bwrdd Iechyd a/neu'r Cyngor o ran Dyluniad Rhaglen Llesiant Gogledd Powys. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno'r camau gweithredu y mae RhLlGP wedi'u hadnabod mewn ymateb.

| Cyfleoedd ar gyfer datblygu | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
| --- | --- |
| Wrth ddatblygu'r dulliau gwerthuso ar gyfer RhLlGP bydd cyfle i hyn wreiddio'r pum ffordd o weithio'n llawn. | Mae tîm y rhaglen yn ceisio cymorth allanol trwy dendr gan Brifysgol i roi cymorth i ddatblygu'r fframwaith gwerthuso a bydd hwn yn cael ei gynnwys yn y briff. Yr amserlen, yn amodol ar benodi, yw Ebrill 2020. |
| Wrth i RhLlGP ddatblygu a mireinio'i manteision dros y misoedd nesaf bydd yn bwysig sicrhau bod y rhain yn dal i gefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor a chynaliadwyedd hirdymor gwasanaeth. | Fel rhan o'r achos busnes byddwn yn asesu effaith y newid trwy fodelu strategol; bydd hyn yn ystyried y cyfleoedd a fforddiadwyedd yn y tymor byr a chanolig. Bydd hyn yn ystyried ystod o opsiynau cyflenwi gan edrych ar y gweithlu a datrysiadau digidol a bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd gwanwyn 2020. Bydd Cam 2 yn parhau i ganolbwyntio ar gynaliadwyedd mwy hirdymor gwasanaethau ac i ddatblygu cynlluniau i gefnogi hyn. |
| Bydd angen i'r rhaglen ddisgrifio'n fwy eglur sut y bydd y model gofal hirdymor newydd yn effeithio ar berfformiad cyfredol gwasanaethau. | Mae gwybodaeth sylfaenol yn cael ei chasglu, ac yn dilyn cymeradwyo'r model gofal ym mis Ionawr 2020 bydd cynlluniau pontio'n cael eu datblygu i gefnogi'r newid o'r cyflwr presennol i'r cyflwr yn y dyfodol, trwy ddull graddol. Bydd capasiti rheoli newid yn cael ei sicrhau yn chwarter 4 i reoli'r broses bontio, a bydd y rolau'n cydweithio'n agos gyda rheolwyr gweithredol i ystyried yr effaith ar berfformiad cyfredol gwasanaethau. |

| Cyfleoedd ar gyfer datblygu | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
| --- | --- |
| Mae cyflawni'r model gofal yn y dyfodol yn ddibynnol yn rhannol ar gapasiti'r Trydydd Sector. Er bod RhLIGP wedi dechrau mapio'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, mae angen gwaith pellach i asesu'r effaith. | Mae gwaith i fapio gwasanaethau wedi cael ei wneud ar draws y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Yn dilyn gwaith mwy manwl ar y model, bydd dadansoddiad o'r bylchau'n cael ei gynnal yn ystod cam 2 fel rhan o'r cynlluniau pontio a fydd yn asesu effaith y risg hon. |
| Wrth i RhLIGP ddatblygu ei Model Gofal bydd angen iddi sicrhau bod hwn yn gallu dangos yn glir sut y bydd yn cefnogi'r dull ataliol a dwyn gwelliannau mwy hirdymor ar ganlyniadau a nodwyd. | Mae llesiant ac atal yn flaenllaw yn ein strategaeth iechyd a gofal yn ogystal â'r gwaith yr ydym yn ei wneud i ddylunio'r model gofal. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn ceisio cymorth allanol ar dendr gan Brifysgol i wneud gwaith modelu economeg iechyd rhagfynegol i fesur cyfleoedd yn y tymor hwy sy'n gysylltiedig ag atal ac ymyrryd yn gynnar. Bydd hyn yn ein galluogi i asesu effaith atal, yn seiliedig ar sail dystiolaeth a bydd yn rhan o ddatblygu'r achos busnes sydd i fod i ddigwydd ar ddiwedd gwanwyn 2020. |
| Mae fframwaith canlyniadau cyfredol RhLIGP yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cyfle i sicrhau bod manteision/canlyniadau lluosog ehangach yn cael eu mesur ar draws sbectrwm ehangach y nodau cenedlaethol (megis addysg, yr amgylchedd a'r economi) lle mae dangosyddion yn bodoli sy'n ystyrlon ar lefel ardal fach. Dylai hyn ystyried yn benodol y datblygiad cyfalaf yn y Drenewydd. | Bydd y rhaglen yn adnabod ac yn cytuno ar fanteision lefel uchel fel rhan o achos busnes y rhaglen. Fel rhan o'r gwaith hwn bydd y fframwaith canlyniadau drafft yn cael ei ddatblygu ymhellach i ystyried y canlyniadau ehangach yn unol â'r nodau cenedlaethol a bydd hwn yn rhan o'r cynllun manteision lefel uchel. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2020. |
| Wrth i dirwedd strategol y Cyngor esblygu, dylai achub ar y cyfle i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu RhLIGP, er enghraifft y Strategaeth Dai sydd i fod i gael ei diweddaru yn 2020. | Bydd y broses cynllunio corfforaethol yn ystyried allbynnau a chyfeiriad Rhaglen Llesiant Gogledd Powys a bydd yn adlewyrchu hyn yn ei chynllun a strategaethau corfforaethol wrth edrych tua'r dyfodol lle y bo'n briodol. Bydd hwn yn weithgarwch parhaus. |
| Mae cyfleoedd i ddatblygu mentrau cydweithio gyda'r holl bartneriaid strategol ymhellach, gan gynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu, mor gynnar â phosibl yn y broses ddylunio. | Mae cynlluniau Ymgysylltu a Chyfathrebu'n cael eu paratoi ar gyfer y cam nesaf. Bydd y model gofal drafft yn cael ei rannu gyda phartneriaid strategol er mwyn iddynt allu dylanwadu ar y dyluniad cyn iddo gael ei gymeradwyo ym mis Ionawr 2020. |

| Cyfleoedd ar gyfer datblygu | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
| --- | --- |
| Gall agweddau ar wahân ar y rhaglen fod ag amserlenni a risgiau penodol. Mae rheoli'r risgiau hyn yn allweddol i sicrhau bod y weledigaeth gydweithredol yn cael ei gwireddu, megis y terfynau amser ar gyfer cyllid cyfalaf ym maes addysg. | Mae gan y rhaglen log risg a materion a bydd yn parhau i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu trwy'r trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt ar gyfer y rhaglen. Bydd y llwybr a gweithgareddau critigol yn cael eu monitro ym mwrdd y rhaglen a'u huwchgyfeirio lle y bo'n briodol. Mae hwn yn weithgarwch parhaus. |
| Un o risgiau sylweddol RhLlGP yw 'Methu â tharo cydbwysedd rhwng disgwyliadau dinasyddion ynglŷn â'r rhaglen a rhoi anogaeth i feddwl heb orwelion'. Bydd yn bwysig bod yn fwy eglur ynglŷn â sut y bydd y risg hon yn cael ei rheoli/lliniaru. | Mae allbynnau gweithgareddau ymgysylltu cam 1 yn cael eu hadolygu a'u hystyried ar hyn o bryd fel rhan o ddylunio'r model gofal. Fel rhan o'r gwaith hwn bydd ymateb yn cael ei baratoi sy'n dangos sut yr ydym wedi gwrando ar ddisgwyliadau dinasyddion ac ymateb iddynt. Bydd dogfen cwestiynau cyffredin yn cael ei chyhoeddi i helpu i reoli disgwyliadau ynghylch newidiadau posibl i'r modd y darperir gwasanaethau. Bydd hyn yn cael ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2020. |
| Mae RhLlGP wedi cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â grwpiau anhraddodiadol ac y bydd angen i'r mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â'r grwpiau hyn gael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth. | Rydym yn cydnabod yr angen i ymgysylltu â chymaint o grwpiau amrywiol ac anodd i'w cyrraedd â phosibl, ac i fynd ati'n barhaus i annog y grwpiau hyn i gwrdd a dweud eu dweud. Bydd tîm y rhaglen yn canolbwyntio ar hyn mewn mwy o fanylder yn ystod yr ail gam o ran cynllunio gwaith ymgysylltu. |
| Mae angen i RhLlGP fod yn glir a chyson wrth gyfleu i randdeiliaid beth yw'r gwahaniaeth rhwng y prosiect ar gyfer safle a rennir yn y Drenewydd ac agweddau ehangach ar RhLlGP. | Yn ystod cam 1 o'r gwaith ymgysylltu rydym wedi bod yn glir yn ein digwyddiadau agored ein bod yn cwrdd â'r cyhoedd i drafod model gofal ehangach sy'n diwallu anghenion Powys 'gyfan'. Ni chafwyd unrhyw drafodaethau helaeth ynghylch datblygiad y Drenewydd eto, gan nad ydym wedi cyrraedd y cam hwnnw yn y rhaglen. Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi a phan fydd gennym fodel/achos busnes cymeradwy, byddwn yn gallu disgrifio'n fwy eglur beth yw manteision y model ehangach a manteision y cynllun cyfalaf yn y Drenewydd a bydd cyfathrebiadau'n adlewyrchu hyn. I'w gwblhau erbyn diwedd gwanwyn 2020. |

| Cyfleoedd ar gyfer datblygu | Camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlenni |
| --- | --- |
| Mae angen i'r meini prawf o fewn Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu RhLlGP ddisgrifio'n fwy eglur sut y byddant yn ymgysylltu drachefn â dinasyddion ynghylch pa mor dda y mae'r gymuned yn teimlo bod y rhaglen wedi gwrando arnynt. | Bydd y cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu'n cael ei ddiweddaru yn unol â cham nesaf y gwaith; bydd hyn yn cynnwys adrodd yn ôl ar ein dealltwriaeth am 'yr hyn sy'n bwysig' a'n hymateb ni i'r gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd/cymunedau. I'w gwblhau erbyn mis Ebrill 2020. |

Byddwn yn monitro cynnydd y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u nodi yn ein canfyddiadau, trwy ein rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod ac y byddwn yn eu defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau ar ôl ystyried i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (EDC). Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid eu hystyried yn 'ddangosyddion' a fydd yn ein helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' ar ôl ystyried i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r EDC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 2: dangosyddion cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn?** |
|---|
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru